

Cyngor Cymuned Betws-y-Coed  
Cofnodion y cyfarfod [zoom] a gynhaliwyd ar yr 11eg Hydref 2021

Presennol– Gareth Wynne Cadeirydd, Gwawr Jones,, Neil Pringle, Janet Charlton, Beth Thomas, Cyng Elisabeth Roberts Cyngor BS Conwy, Caerwyn Roberts, Clerc.

Ymddiheuriadau – Catherine Williams, Neil Pringle, Mari E M Mathews

Datgan diddordeb, Datganwyd diddordeb gan Janet Charlton yng nghofnod [2.7] a ni chymerodd unrhyw ran tra bu'r mater yn cael ei drafod

Cofnodion – Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod 13eg Fedi 2021

Materion yn codi

(1) Yr Heddlu

Nid oedd yr heddlu'n bresennol

[1.1] Pont Droed yn uwch i fyny'r afon o Bont-y-Pair

Dywedodd y clerc iddo gwrdd â cynrychiolydd o CADW. Yn siomedig nid oedd yn gefnogol or cynnig, gan y byddai pont droed yn amharu ar Bont-y-Pair. Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts y byddai'n cwrdd yn fuan gyda Dylan Jones Cyngor BS Conwy i geisio ei sylwadau.

[1.2] Pont –y-Mwynwyr

Dywedodd y Cyng Elisabeth Roberts y byddai'n gwneud ymholiad am yr amserlen ddiweddar

[1.3] Cyngor BS Conwy/Toiledau Ffordd yr Orsaf

Dywedodd y Cadeirydd ei fod yn disgwyl ateb gan Steven Teal Cyngor BS Conwy ynglŷn â'r toiledau.

[1.4] Camerâu Cylch Agos Pentre' Du

Eglurodd y clerc nad oedd gwybodaeth pellach wedi ei dderbyn oddiwrth Cyngor BS Conwy ynglŷn â chostau. Y clerc i anfon gair i'w hatgoffa.

[1.5] Siop Climber a Rambler

Dywedodd y Cyng E Roberts nad oedd gair pellach wedi ei derbyn gan APCE, a'i bod yn bwriadu cysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn ag amserlen i ddymchwel yr adeilad.

[1.6] Atgyweirio'r Neuadd Goffa

Eglurodd y Cadeirydd, fod y Cyngor Sir yn ystyried gwerth y neuadd i'r gymuned yn ochr y costau o gynnal a chadw. Dywedodd hefyd efallai naD oedd y Cyngor Sir yn barod i dalu'r gost o drwsio wal talcen y neuadd. Mae trafodaeth yn parhau.

[1.7] Tai Fforddiadwy/ Cartrefi Conwy

Nodwyd bod trafodaeth yn parhau ynglŷn ag ariannu'r datblygiad a pholisi lleol ar gyfer gosod yr eiddo

[1.8] Caffi 'r Rheilffordd Fach

Gan nodi'r pryder ynglŷn â chyflwr y caffi, cytunodd y Cyng E Roberts I gysylltu gyda'r Cyngor Sir I geisio sylwadau, gan gynnwys safon glendid y bwyd ayb. Y clerc hefyd i anfon at y perchennog ynglŷn â chyflwr y caffi.

[1.9] Materion Parcio Bro Gethin

Dywedodd y clerc nad oedd ateb wedi ei dderbyn oddiwrth Andrew Bowden o Gartrefi Conwy, er iddo anfon gair i'w atgoffa ar y 14eg Fedi. Y clerc i anfon gair eto i'w atgoffa.

[2.] APCE Plannu Coed

Deallwyd bod Cyngor BS Conwy yn awyddus i blannu ychydig o goed gwern ym mynwent Erw Hedd. Y clerc i gysylltu gyda APCE ynglŷn â threfniadau.

[2.1] Llystyfiant Pont-y-Pair

Eglurodd y clerc fod Cyngor BS Conwy yn ceisio cyngor a phenderfyniad CADW ynglŷn â gwneud gwaith ar adeilad hynafol

[2.2] Mynedfa i'r Feddygfa

Cyfeiriodd y clerc at ymateb gan y feddygfa, y byddai angen cysylltu gyda'r tir feddiannwr cyn gosod marciau ar y ffordd. Byddai'n debygol o gael eu gosod yn dilyn i ddatblygiad y tai fforddiadwy

[2.3] Betws yn ei Blodau

Dywedodd y clerc bod y Cyng Neil Pringle yn paratoi cais ar gyfer tybiau blodau newydd.

[2.4] Dyn mewn Fan

Nodwyd bod y Cyng Neil Pringle yn bwrw mlaen gyda'r mater.

[2.5] Tough Runner UK

Nodwyd ateb gan Adrian a Trobe Cyngor BS Conwy yn cadarnhau nad oedd y Cyngor Sir wedi derbyn unrhyw rybudd o'r trefniadau a'i fod mewn cysylltiad gyda threfnwyr y ras yngun a'r mater.

[2.6] Ynys y Ffynidwydden/ Afon Llugwy

Dywedodd y clerc bod CNC yn tybio mai Cyngor Sir Conwy oedd yn berchen yr ynys . Y clerc i gysylltu gyda'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

Y Brif Agenda

[2.7] Materion Cynllunio

[a] Newid defnydd tŷ Fron Heulog I lety gwasanaeth, dymchwel yr estyniad cefn presennol ac adeiladu estyniad fel llety i'r rheolwr

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad i'r Cais uchod.

[b] Yr Hen Feddygfa, Stryd y Felin

Eglurodd y clerc bod pryderon wedi ei derbyn gan bobl yn byw yn Stryd y Felin nad oedd y cais cynllunio gwreiddiol a ganiatawyd ar gyfer yr adeilad yn cael ei ddilyn yn gywir.

Penderfynwyd cysylltu gyda APCE yn amlinellu na ddylai'r datblygiad fynd ymlaen ac y dylai unrhyw waith wedi ei wneud yn groes i'r caniatâd gwreiddiol gael ei ddymchwel'

[2.8] Materion Ariannol

[a] Cymeradwywyd y taliadau a'r derbyniadau a amlinellwyd gan y clerc ar gyfer y cyfnod 1/9/21 -31/9/21

[b] Dywedodd y clerc fod ffigyrau mynediad i'r rhaeadr yn is i gymharu â mis Medi 2020 ond yn uwch ar gyfer cyfnod haf 2021

[2.9] Dau Ymddeoliad

Nodwyd bod Mr George Field a Mr Philip Green yn ymddeol o waith derbynnydd yn y Rhaeadr Ewynnol. Y clerc i anfon gair o ddiolch i'r ddau am ei gwasanaeth. Eglurodd y clerc bod Mr Michael Roberts wedi ei benodi i swydd derbynnydd ar gyflog £8.91 yr awr ac y bydd yn cynorthwyo yn ystod misoedd y gaeaf, cyn dechrau ar ei waith yn yr Haf 2022.

Nodwyd bod un swydd wag yn y Rhaeadar.

Gareth Wynne, Cadeirydd